# ADOLYGIAD ANNIBYNNOL O GAPASITI CARCHARDAI

Awst 2025

## CYFLWYNIAD

Ym mis Mai 2024, ar ôl cyhoeddi etholiad cyffredinol, galwyd cyfarfod COBR[1] ar lefel swyddogion i drafod cynlluniau wrth gefn rhag ofn i'r system cyfiawnder troseddol ddymchwel yn ystod yr ymgyrch etholiadol gan nad oedd carchardai'n gallu derbyn rhagor o garcharorion. Gallai hyn gynnwys galw am bwerau argyfwng dan Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004 i ryddhau carcharorion yn gynnar, er mwyn osgoi'r risg o anhrefn cyhoeddus. Parhaodd y cyfarfodydd a'r trafodaethau hyn drwy gydol cyfnod yr etholiad.

Roedd y risg yn real: ar un adeg roedd llai na 100 o leoedd ar ôl mewn carchardai i oedolion gwrywaidd. Mewn gwirionedd, fodd bynnag, roedd y system wedi bod mewn argyfwng ers dros ddeunaw mis. Ers 2023, roedd carchardai wedi bod o fewn trwch blewyn i gyrraedd eu capasiti droeon. Bob tro, llwyddwyd i ostwng y niferoedd ar y munud olaf drwy ddefnyddio cynlluniau rhyddhau'n gynnar, gan leihau'n raddol yr amser roedd llawer o garcharorion yn ei dreulio yn y carchar, drwy ddefnyddio pwerau a gynlluniwyd er mwyn gallu rhyddhau ar sail dosturiol. Gan fod yr uwch swyddogion mor bryderus ynglŷn â'r posibilrwydd y byddai'r system cyfiawnder troseddol yn dymchwel cynhaliwyd archwiliad o'r holl benderfyniadau a oedd yn cael eu gwneud a'r dogfennau, rhag ofn y cynhelid ymchwiliad cyhoeddus neu seneddol.

Mewn gwirionedd herciodd y system yn ei blaen drwy haf 2024, gan wybod bod achubiaeth ar ei ffordd, ar ffurf addewid y llywodraeth newydd i leihau elfen garchar y rhan fwyaf o'r dedfrydau penodol safonol o 50% i 40% (SDS40). Roedd hwn yn gam tebyg i'r un a ddilynwyd yn frwdfrydig ond yn aflwyddiannus gan yr Arglwydd Ganghellor yn y llywodraeth flaenorol. Roedd y llywodraeth honno hefyd wedi cynnig gohirio'r rhan fwyaf o'r dedfrydau byr o garchar, ynghyd â mesurau eraill, mewn deddfwriaeth a aeth i'r wal pan alwyd yr etholiad cyffredinol. Comisiynodd y llywodraeth newydd adolygiad annibynnol o ddedfrydu,[2] yn cael ei gadeirio gan y cyn Arglwydd Ganghellor Ceidwadol, David Gauke. Cyflwynwyd adroddiad yr adolygiad ym mis Mai, ar adeg pan oedd carchardai o fewn trwch blewyn i gyrraedd argyfwng capasiti arall.[3]

[1] Gelwir cyfarfodydd COBR er mwyn dod â gwahanol adrannau ac asiantaethau at ei gilydd i ymateb i argyfyngau cenedlaethol neu darfu mawr. COBR yw'r byrfodd Saesneg ar gyfer Ystafelloedd Briffio Swyddfa'r Cabinet *(Cabinet Office Briefing Rooms)*.

[2] Adolygiad Annibynnol o Ddedfrydu, Cylch Gorchwyl, (2024-2025) <https://www.gov.uk/guidance/independent-sentencing-review-2024-to-2025 >

[3] Adolygiad Annibynnol o Ddedfrydu, Adroddiad Terfynol a Chynigion ar gyfer Diwygio, (2025) <https://www.gov.uk/government/publications/independent-sentencing-review-final-report>

Roedd argyfwng capasiti carchardai 2022-24 yn gyfuniad o amgylchiadau penodol. Ond roedd hefyd yn un o symptomau problem systemig a pharhaus: ar y naill law, y pwysau di-ildio am ragor o ddedfrydau o garchar a'r rheini'n ddedfrydau hwy, ac ar y llaw arall anhawster, cost ac effeithiolrwydd cyffredinol adeiladu a rhedeg mwy o garchardai. Yn gyffredinol, mae pwysau'r boblogaeth wedi cyfyngu ar gapasiti carchardai i weithredu amgylcheddau cadarnhaol a phwrpasol sy'n gallu lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu. O bryd i'w gilydd mae'r pwysau hwnnw'n troi'n argyfwng sy'n galw am gamau gweithredu. Weithiau does neb yn sylwi arno; dro arall mae'n gyhoeddus.

Yn 2007-08, wynebodd y llywodraeth Lafur ddiwethaf argyfwng capasiti, gan nad oedd nifer y lleoedd a oedd ar gael mewn carchardai yn cyfateb i'r galw a grëwyd gan ddeddfwriaeth, a oedd wedi cynyddu rhai o'r dedfrydau lleiaf ac wedi cyflwyno'r ddedfryd carcharu er mwyn diogelu'r cyhoedd (IPP), sydd bellach wedi'i diddymu. Bu'n rhaid i'r Arglwydd Ganghellor ar y pryd gyflwyno cynllun rhyddhau'n gynnar, nid yn annhebyg i gynlluniau 2023-24, ond dan bwerau gwahanol, er mwyn atal y system rhag dymchwel.

Yn ystod mesurau cyni'r llywodraeth Glymblaid rhwng 2010 a 2015, cynigiodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder arbedion yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y byddai poblogaeth carchardai'n lleihau, ond ni chymerwyd unrhyw gamau i fynd i'r afael â'r ffactorau a oedd yn achosi'r cynnydd yn y boblogaeth. Caewyd deunaw o garchardai costus, y rhan fwyaf ohonynt yn rhai bach, ond dim ond dau garchar newydd a agorwyd; lleihawyd cyfanswm y swyddogion carchar 27%,[4] a chollwyd llawer o staff profiadol; cafodd cyllidebau cynnal a chadw a gwaith cyfalaf eu torri neu eu trosglwyddo er mwyn cau tyllau mewn costau rhedeg. Erbyn haf 2017, dim ond tua 900 o leoedd oedd ar ôl mewn carchardai,[5] ac roedd risg wirioneddol y byddai'r system yn dymchwel. Llwyddwyd i osgoi hyn drwy gyfres o fesurau gweithredol a oedd prin i'w gweld, gan gynnwys cynnydd o 60% yn y defnydd o gyrffywiau cyfyngu i'r cartref[6] (defnyddio tagiau electronig) a chynnydd sylweddol yn nifer y carcharorion wedi'u hadalw a oedd yn cael eu hailryddhau.[7]

Felly argyfwng capasiti 2022-24, sef testun yr adolygiad hwn, yw'r diweddaraf o nifer o argyfyngau, ond mae'n debyg mai dyma'r argyfwng dyfnaf a hiraf, a ddisgrifiwyd gan lawer o'r rhai sydd wedi byw drwyddo fel 'permagreisis' deunaw mis. Effeithiodd ar y gwasanaeth carchardai ar bob lefel, yn ogystal â'r rhan fwyaf o adrannau eraill y system

---

[4] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Bwletin Ystadegau Gweithlu'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, (2015) <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a80abf9e5274a2e8ab51803/noms-workforce-statistics-december-2015.pdf>

[5] GOV.UK, Data Carchardai – Rheoli Troseddwyr, (2025) <https://data.justice.gov.uk/prisons/offender-management>

[6] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Offender Management Statistics Quarterly, (2018) <https://view.officeapps.live.com/op/view.aspx?src=https%3A%2F%2Fassets.publishing.service.gov.uk%2Fmedia%2F5b59d68ee5274a3ff828c717%2Freleases-Q12018.ods&wdOrigin=BROWSELINK>

[7] Senedd y DU, Cwestiynau, Atebion a Datganiadau Ysgrifenedig, (2024) <https://questions-statements.parliament.uk/written-questions/detail/2024-04-23/23202/>

gyfiawnder troseddol. Fel y dangosodd digwyddiadau diweddar, ac fel y dengys ffigurau capasiti carchardai diweddar, nid yw drosodd o bell ffordd.[8]

Fwy a mwy, yn ystod y cyfnod hwn, roedd y pwyslais yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Gwasanaeth Carchardai, yn enwedig ar lefel uwch swyddogion, ar reoli'r argyfwng, yn hytrach na rheoli carchardai neu gefnogi carcharorion. Roedd tasgluoedd, byrddau a phwyllgorau, ar draws a thu hwnt i garchardai a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn cyfarfod yn wythnosol, ac yn ddyddiol weithiau, i ddogfennu, monitro a cheisio datrys problemau capasiti, ar draul agweddau eraill ar strategaeth a pholisi carchardai (gweler Pennod 3 yn yr adroddiad hwn). Dim ond pan ddangosodd yr ecosystem gymhleth hon fod y system cyfiawnder troseddol o fewn saith, ac yna dri diwrnod o ddymchwel y cymerwyd camau. Ar y ddau achlysur roedd hyn yn ddigon, o drwch blewyn, i osgoi methiant ac i brynu amser tan yr argyfwng rhagweladwy nesaf.

Yn ystod yr argyfwng, roedd uwch swyddogion yn ymlafnio'n ddyddiol i geisio cadw'r system i fynd. Roedd hyn yn cynnwys y rhai sy'n rhedeg gwasanaethau hebrwng carchardai, yn cludo pobl yn ôl ac ymlaen i lysoedd a charchardai, yn ogystal â'r rhai sy'n gyfrifol am reoli'r boblogaeth neu am ganfod ffordd o weithredu'r amrywiol gynlluniau rhyddhau ac ailgategoreiddio sy'n rhyngweithio â'i gilydd. Ar un adeg, dan yr hyn a alwyd yn addas iawn yn Ymgyrch Gwawr Gynnar, bu timau o swyddogion yn gweithio o 5:30am tan yn hwyr i symud pobl yn ôl ac ymlaen o garchardai, celloedd yr heddlu a llysoedd, mewn cyfres gymhleth o symudiadau rhyng-gysylltiedig. Roedd gan lawer o'r bobl hyn risgiau, ac roeddent yn agored i niwed. Roedd cost ariannol i'r argyfwng capasiti hefyd. Rhaid oedd defnyddio celloedd yr heddlu, dan Ymgyrch Diogelu, i gadw carcharorion dros nos, neu am fwy o amser weithiau. Roedd pob cell heddlu yn costio £688 y diwrnod i'r gwasanaeth carchardai, o'i gymharu â chost ddyddiol gyfartalog lle mewn carchar, sef £150: bil sydd dros £70 miliwn hyd yn hyn ac sy'n dal i gynyddu.[9]

Ar lawr gwlad, cafodd yr argyfwng capasiti effaith uniongyrchol a niweidiol ar y rhai sy'n gweithio ac yn byw mewn carchardai, ac ar gapasiti carchardai i wneud gwaith cadarnhaol a gwaith adsefydlu. Mewn carchardai y tu allan i'r ystad tra diogel, yn y gogledd yn fwyaf arbennig ar y dechrau, roedd popeth yn troi o gwmpas niferoedd o ddydd i ddydd: creu digon o le drwy symud carcharorion i mewn ac allan o garchardai a chelloedd yr heddlu, trosglwyddo carcharorion o un rhan o system carchardai wedi gorboethi i un arall, gan geisio osgoi rhyddhau mewn camgymeriad tra'n gweithredu cynlluniau rhyddhau a oedd yn newid o hyd ac yn mynd yn fwy a mwy cymhleth. Ac roedd hyn i gyd yn cael ei ollwng i system carchardai a oedd yn dal i ddod ati ei hun ar ôl toriadau staffio difrifol cynharach, ac a oedd newydd fod yn rheoli argyfwng Covid.

[8] Erbyn diwedd mis Gorffennaf 2025, roedd tua 1,400 o leoedd ar gael. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Prison population: weekly estate figures 2025, (2025) <prison-pop-28-july-2025.ods>

[9] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Prison Estate Capacity, (2025) <https://committees.parliament.uk/publications/46985/documents/242927/default/>

Mae'r galw am leoedd mewn carchardai wedi cynyddu'n aruthrol, er iddo arafu am ychydig ar ddechrau pandemig Covid. Mae nifer o ffactorau y tu ôl i hyn, ac maent yn cael eu hamlinellu ym Mhennod 1 yr adroddiad hwn. Maent yn cynnwys mwy o ddefnydd o'r ddalfa, cynnydd yn hyd dedfrydau am droseddau mwy difrifol, a chynnydd yn y gyfran o'r amser a dreulir yn y carchar.[10] Yn ogystal, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y rhai sy'n cael eu galw'n ôl i'r carchar – dyma oedd bron i chwarter y derbyniadau i garchardai yn 2023-24. Mae bron i un o bob pum carcharor hefyd yn cael ei remandio neu heb gael ei ddedfrydu, oherwydd bod cymaint o achosion yn aros i gael eu gwrando yn y llysoedd troseddol. Er bod nifer y carcharorion sydd â dedfrydau byr wedi gostwng i ddim ond 3% o'r boblogaeth ar unrhyw adeg benodol, dyma yw bron i hanner yr holl dderbyniadau newydd i garchardai. Mae cynigion ar gyfer rhagdybiaeth yn erbyn dedfrydau byr, gan y llywodraeth hon a'r llywodraeth flaenorol, wedi'u cynllunio er mwyn lleddfu'r pwysau hwn.

Mae llywodraethau wedi ymateb drwy ganolbwyntio ar yr ochr gyflenwi, â chynlluniau uchelgeisiol ar gyfer mwy a mwy o leoedd mewn carchardai. Yn ymarferol, fodd bynnag, nid yw hyn wedi bod yn ateb (gweler Pennod 2). Mae pwysau ariannol a chyfyngiadau cynllunio, ynghyd â'r angen i sicrhau lefelau diogelwch priodol, wedi cyfyngu'n ddifrifol ar y gallu i greu lleoedd newydd mewn carchardai, neu hyd yn oed, yn uchelgais yr Ysgrifennydd Gwladol blaenorol, i godi carchardai newydd a mwy effeithlon yn lle hen garchardai sydd â'u cyflwr yn dirywio. Yr un pryd, collwyd lleoedd mewn carchardai, yn bennaf o ganlyniad i gau carchardai a methiannau seilwaith difrifol, fel bod cyfanswm y capasiti gweithredol wedi gostwng rhwng 2012 a 2025. Ond mae capasiti carchardai yn golygu mwy na dim ond creu digon o leoedd y mis nesaf neu'r flwyddyn nesaf: mae'n ymwneud ag ystyried a oes gan garchardai y capasiti a'r adnoddau i ddarparu amgylcheddau diogel sy'n gallu gweithio'n effeithiol gyda charcharorion er mwyn lleihau'r siawns o aildroseddu. Yn ychwanegol at hyn, bydd argyfyngau capasiti carchardai yn dal i ddigwydd oni bai fod buddsoddiad digonol y tu allan i'r carchar – mewn gwasanaethau prawf ac mewn gwasanaethau cymunedol eraill – i gefnogi'r rhai sy'n cael eu rhyddhau ac i fynd i'r afael â rhai o achosion sylfaenol troseddu.

Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig nodi nad yw pob grŵp wedi gweld cynnydd graddol ym mhoblogaeth carchardai. Yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf mae nifer y bobl ifanc dan 18 oed sydd mewn carchardai wedi gostwng o dros 3,000 i tua 400. Gwelir hyn fel canlyniad uniongyrchol i ganolbwyntio ar ddull gweithredu ataliol a chefnogol cymunedol, amlddisgyblaethol, â charcharu'n cael ei gadw ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol. Nid yw hynny'n golygu peidio â buddsoddi mewn carchardai: mae'n golygu ailfuddsoddi yn y gwasanaethau cymunedol a all atal troseddu neu aildroseddu.

---

[10] Adolygiad Annibynnol o Ddedfrydu, History and Trends in Sentencing, (2025) <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/67c583a868a61757838d2196/independent-sentencing-review-part-1-report.pdf>

Mae cyflwyno SDS40 yn niwedd 2024, ynghyd â mwy o ddefnydd o'r cyrffyw cyfyngu i'r cartref, wedi rhoi lle i anadlu, ond nid ateb. Erbyn gwanwyn 2025, roedd y niferoedd mewn carchardai'n agosáu at y capasiti unwaith eto, roedd celloedd yr heddlu'n cael eu defnyddio unwaith eto, ac ailgychwynnwyd y fforymau a sefydlwyd er mwyn rheoli capasiti. Mae camau brys wedi'u cyhoeddi er mwyn ehangu'r defnydd o adalw am gyfnod penodol, ac mae cyrffywiau cyfyngu i'r cartref ('tagio') wedi'u hymestyn ymhellach. Nod argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o Ddedfrydu yw capio'r cynnydd rhagamcanol yn y niferoedd mewn carchardai ar ei lefel uchaf erioed, sef tua 95,000. Bydd hynny'n her i'r Gwasanaeth Carchardai o hyd. Yn y cyfamser, nid yw mesurau rhyddhau'n gynnar a mwy o ddefnydd o ddewisiadau eraill yn y gymuned yn ddigon ar eu pen eu hunain i leihau'r pwysau cyffredinol: maent yn ei symud o'r carchardai i'r gwasanaeth prawf, y trydydd sector a gwasanaethau cymunedol, sydd fel y nodir yn yr adroddiad hwn yn wynebu eu problemau capasiti eu hunain, er nad oes cymaint o gyhoeddusrwydd wedi'i roi iddynt. Mae buddsoddiad ychwanegol sylweddol a mawr ei angen yn y gwasanaethau hyn wedi'i addo erbyn hyn.[11]

Mae'r adroddiad hwn yn dangos risgiau a chanlyniadau'r cylch o argyfyngau capasiti carchardai, ac yn fwyaf arbennig effaith hynod niweidiol yr argyfwng acíwt yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hefyd yn amlinellu'r effeithiau ehangach: costau cyfle ar bob lefel wrth i'r gwasanaethau orfod canolbwyntio ar gapasiti ar draul mwy o gynllunio strategol, datblygu polisi a gwaith adsefydlu cadarnhaol. Mae'n cloi drwy gynnig y dylid newid y dull gweithredu o ragfynegi argyfyngau i'w hatal, mewn carchardai ac mewn gwasanaethau prawf a chymunedol.

## CASGLIAD AC ARGYMHELLION

Y dasg benodol a roddwyd i'r adolygiad hwn oedd archwilio achosion, effaith a'r dull o reoli argyfwng capasiti carchardai 2022-24, o ystyried yr argyfyngau eraill a welwyd yn ddiweddar, a myfyrio ar y gwersi i'w dysgu ar gyfer y dyfodol. Mae adroddiad yr Adolygiad Annibynnol o Ddedfrydu wedi'i gyhoeddi erbyn hyn, ac mae rhan 1 o adolygiad Syr Brian Leveson o'r llysoedd troseddol wedi'i gyhoeddi hefyd.[12] Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi cynhyrchu nifer o adroddiadau ar agweddau gwerth am arian y diffyg cyfatebiaeth rhwng y cyflenwad a'r galw mewn carchardai. Yn ychwanegol at hyn, mae'r arolygiaethau carchardai a phrawf yn dal i gyhoeddi adroddiadau beirniadol iawn ar gyflwr presennol y ddau wasanaeth hyn. Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at rai o'r

---

[11] Trysorlys EF, Adolygiad Gwariant 2025, (2025) tudalen 65
<https://www.gov.uk/government/collections/spending-review-2025>

[12] Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan 1, (2025) <
https://www.gov.uk/government/publications/independent-review-of-the-criminal-courts-part-1>

materion hyn, ond nid wyf yn bwriadu trafod yr un pethau nac ailadrodd canfyddiadau'r adolygiadau a'r adroddiadau hynny.

Fel mae'r adolygiad hwn yn nodi'n glir, daeth y system garchardai, a'r system cyfiawnder troseddol yn ei chyfanrwydd o bosibl, o fewn dyddiau i ddymchwel fwy nag unwaith yn ystod y tair blynedd diwethaf. Nid dyma'r tro cyntaf i ni gael argyfwng capasiti a oedd angen camau gweithredu brys ar y munud olaf, ond dyma'r argyfwng mwyaf acíwt a'r un hiraf. Nid yw'r broblem wedi'i datrys eto, sy'n awgrymu ei bod yn broblem systemig.

Ni allai strwythurau a mecanweithiau goruchwylio – prosesau adrannol mewnol, pwyllgorau dethol y senedd ac arolygiaethau annibynnol – fod wedi rhoi arwyddion cliriach o faint, tebygolrwydd, risgiau a chanlyniadau'r argyfwng capasiti diweddaraf, fel y dengys yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, yr ymateb i'r arwyddion hyn oedd atebion byrdymor munud olaf yn hytrach nag atebion hirdymor i'r problemau sylfaenol. Mae adolygiadau fel yr un yma a'r Adolygiad Annibynnol ar Ddedfrydu yn cael eu comisiynu ar ôl argyfyngau, nid yn eu lle.

Mae fy nghynigion i'n ceisio sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto, drwy sefydlu ac atgyfnerthu systemau sy'n rhoi arwydd bod problemau ac argyfyngau ar y gorwel, a hefyd yn ysgogi camau ataliol er mwyn eu hosgoi.

Fy mhrif gasgliadau yw

1. Mae strwythurau a phrosesau gwneud penderfyniadau wedi canolbwyntio ar reoli, yn hytrach nag osgoi, argyfwng, gan arwain at oedi niweidiol ac atebion byrdymor. Nid oes asesiad annibynnol, sy'n edrych tua'r dyfodol wedi'i wneud o effaith polisi a newidiadau deddfwriaethol.
2. Bydd carchardai yn dal i weithredu ar gapasiti llawn, â heriau sylweddol, ond mae angen symud o reoli argyfwng i welliannau strategol a systemig.
3. Bydd mesurau a gynigiwyd er mwyn ymdrin â'r argyfwng capasiti carchardai yn rhoi pwysau ychwanegol sylweddol ar y gwasanaeth prawf a gwasanaethau cymunedol eraill.
4. Mae'n bwysig cryfhau ac adeiladu ar fecanweithiau ar gyfer cydweithio rhwng gwahanol adrannau o fewn y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar draws y system cyfiawnder troseddol, fel busnes fel arfer, nid yn unig er mwyn rheoli argyfwng.
5. Mae gwersi y gellir eu dysgu o'r ffordd y mae'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid yn gweithio, mewn model lleol ar draws gwahanol asiantaethau er mwyn atal troseddu ac aildroseddu. Yn yr un modd, mae'r Bwrdd Cyfiawnder Menywod yn edrych ar ymyriadau cynnar effeithiol a dewisiadau eraill yn lle carchar. Nid oes cynigion o'r fath ar gyfer oedolion gwrywaidd ar hyn o bryd.

## Argymhellion

Mae'r Datganiad Blynyddol ar Gapasiti Carchardai,[13] a gyflwynwyd i'r Senedd am y tro cyntaf fis Rhagfyr diwethaf, yn gam ymlaen. Fodd bynnag, mae hwn yn fecanwaith ar gyfer adrodd a rhagfynegi capasiti, yn hytrach na strategaeth i'w reoli, ac mae'n canolbwyntio'n bennaf ar garchardai. Lai na phum mis ar ôl ei gyhoeddi, roedd angen camau brys er mwyn osgoi argyfwng capasiti arall. Y strategaeth ddeng mlynedd gysylltiedig yw'r un ddiweddaraf o nifer o strategaethau, ond unwaith eto mae'n ymdrin â chapasiti carchardai yn unig.

**Rwy'n argymell y dylid cyhoeddi strategaeth ddeng mlynedd ar gyfer datblygu capasiti mewn gwasanaethau prawf a chymunedol.**

Yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, mae'n fuddiol bod cangen strategol ar wahân o'r tasglu gweithrediadau capasiti wedi'i sefydlu erbyn hyn. Fodd bynnag, mae hanes y gorffennol yn awgrymu'n gryf ei bod yn bosibl na fydd strategaethau o'r fath yn goroesi cyswllt â realiti, a hefyd nad yw'r holl systemau a phrosesau mewnol a sefydlwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi gallu sicrhau gweithredu buan rhwng gwahanol adrannau ac ar lefel y llywodraeth.

**Rwy'n argymell y dylid cael corff cynghori annibynnol i ddarparu cyngor a dilysiad allanol o'r strategaethau capasiti a'r heriau ar gyfer carchardai a phrawf, ac yn fwyaf arbennig effaith unrhyw newidiadau arfaethedig yn y system cyfiawnder troseddol.**

Rwy'n nodi bod yr Adolygiad Annibynnol o Ddedfrydu, a nifer o'i dystion, hefyd yn argymell y dylid creu corff cynghori allanol annibynnol.[14] Byddai angen ymgynghori ynglŷn â'i union gyfansoddiad a'i gylch gorchwyl, ond fel yr adolygiad o ddedfrydu, credaf y dylai asesu effaith newidiadau strwythurol, ariannol neu ddeddfwriaethol, neu ganllawiau sy'n cael eu cynllunio neu eu gweithredu mewn unrhyw ran o'r system cyfiawnder troseddol, ar garchardai a phrawf, gan gynnwys cyllid a goblygiadau sefydliadol. Dylai ddarparu cyngor a sylwadau annibynnol ar strategaethau capasiti carchardai a phrawf a pholisïau perthnasol. Dylai ddefnyddio canfyddiadau'r arolygiaethau carchardai a phrawf annibynnol er mwyn ystyried realiti'r sefyllfa. Byddai'r broses hon yn mynd â'r trafodaethau hyn o gysgodion ymrysonau rhwng gwahanol adrannau neu o fewn y llywodraeth, ac yn symud tuag at ddull gweithredu ataliol, yn hytrach na rheoli argyfwng. Mae'r penderfyniadau sy'n ymwneud ag a ddylid deddfu, sut i ddeddfu, a ble i fuddsoddi adnoddau, yn benderfyniadau gwleidyddol, yn gwbl briodol, ond byddai'r mecanwaith hwn yn darparu mwy o dryloywder ac atebolrwydd.

---

[13] Annual Statement on Prison Capacity: 2024 - GOV.UK
[14] Pennod 9 Adolygiad Annibynnol o Ddedfrydu – Adroddiad terfynol a chynigion ar gyfer diwygio

Yn ystod yr adolygiad hwn, mynegwyd ambell farn gref ynglŷn â strwythur a ffocws HMPPS. Mewn carchardai, roedd hyn yn canolbwyntio ar y strwythur sefydliadol, a'r berthynas rhwng llywodraethwyr a strwythurau rheoli lleol a chanolog. Mewn gwasanaethau prawf, roedd hyn yn canolbwyntio ar yr angen am bwyslais mwy lleol, gan gynnwys partneriaethau â sefydliadau y tu allan i gyfiawnder troseddol.

Hyd yn oed os yw'r cynigion yn yr Adolygiad Annibynnol o Ddedfrydu yn cael eu gweithredu ac yn cael yr effaith a ddymunir, bydd poblogaeth carchardai yn parhau ar y lefel uchaf y mae wedi bod erioed, â phwysau ar y capasiti i redeg systemau adsefydlu, diogel. Bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi yn dal i adrodd ar y canlyniadau i garcharorion ym mhob carchar, ac mae'r adroddiadau hynny'n dangos maint yr her i'r rhan fwyaf o'r carchardai yn glir, gan ystyried bod risgiau'n gallu newid. Fodd bynnag, mae rhai o'r canfyddiadau hynny'n adlewyrchu problemau ehangach yn ymwneud â'r sefydliad ac adnoddau yn y gwasanaeth carchardai, neu'n ganlyniad i'r problemau hynny. Nid oes gwerthusiad annibynnol o'r gwasanaeth carchardai yn ei gyfanrwydd – ei strwythurau rheoli canolog, rhanbarthol a lleol, gallu strategol, ac anghenion staffio, hyfforddiant ac adnoddau.

**Rwy'n argymell y dylid ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd HMPPS wneud gwerthusiad o'r gwasanaeth carchardai, drwy ymgynghori â'r Prif Arolygwr Carchardai. Dylai hefyd fonitro ac adrodd ar gynnydd ar sail y strategaeth capasiti carchardai 10 mlynedd a'r strategaeth arfaethedig ar gyfer capasiti prawf a chymunedau.**

Mae'r argyfwng capasiti yn y gwasanaeth prawf, a'r diffygion yn y gwasanaethau a ddarperir yn y gymuned, yn llawer llai amlwg nag mewn carchardai, ond maent yr un mor real a niweidiol.[15] O ystyried y newidiadau a gynigiwyd yn yr Adolygiad Annibynnol o Ddedfrydu, ac a dderbyniwyd gan y llywodraeth, bydd yn rhaid i'r gwasanaethau hynny yn awr dderbyn llawer mwy o gyfrifoldeb am oruchwylio a chefnogi yn y gymuned. Mae addewid o gyllid ychwanegol sylweddol dros y pedair blynedd nesaf, ond nid yw'n amlwg faint o hyn fydd mewn mecanweithiau rheoli – monitro electronig estynedig – a faint fydd mewn gwasanaethau cefnogi hanfodol, o fewn ac oddi allan i gyfiawnder troseddol, a all atal troseddu ac aildroseddu. Nid yw prawf, gwasanaethau cymunedol a'r trydydd sector yn falfiau pwysedd y gellir eu hagor neu eu cau yn ôl y galw er mwyn tynnu'r pwysau oddi ar system garchardai sydd ar ei gliniau: dylent fod yn rhan annatod o arweinyddiaeth, cynllunio a chyllid. Mae hyn yn golygu y bydd angen creu a chryfhau partneriaethau gweithredol go iawn, nid trosglwyddo'r awenau i rywun arall, yn enwedig ar lefel leol, a dysgu gwersi o fethiannau'r broses Gweddnewid Adsefydlu.

[15] Arolygiad Cenedlaethol – Ebrill 2025 – Arolygiaeth Prawf EF ac Adroddiad Blynyddol Clinks 2023-2024

**Rwy'n argymell y dylid cynnwys y Prif Arolygydd Prawf a'r trydydd sector mewn trafodaethau ynglŷn â chynllunio gwasanaethau cymunedol, yn ogystal â'u darparu. Dylai hyn gynnwys ymgysylltu a sicrhau adnoddau ar gyfer gwasanaethau cefnogi cyfiawnder anhroseddol hanfodol, megis gwasanaethau caethiwed, iechyd, tai, a chyflogaeth.**

Gwelwyd tensiynau rhwng polisïau a chyllid mewn gwahanol rannau o'r system cyfiawnder troseddol, yn enwedig ers gwahanu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder oddi wrth y Swyddfa Gartref. Mae'r tensiynau hyn, ar lefel genedlaethol a lleol, wedi arwain at feio rhywun arall ar brydiau, yn hytrach na datrys problemau. Yn fwy diweddar, fel mae'r adolygiad hwn yn nodi, gwelwyd enghreifftiau o berthnasoedd gweithredol adeiladol, a ddatblygodd yn ystod argyfwng Covid a'r argyfwng capasiti, y gellir adeiladu arnynt er mwyn mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol yn hytrach na'r symptomau. Roedd y dull integredig o reoli troseddwyr (IOM), pan oedd yn cael ei weithredu'n briodol ac yn cael digon o adnoddau, yn dod ag asiantaethau lleol at ei gilydd i ymdrin â throseddwyr rheolaidd a mynych.

**Rwy'n argymell y dylid adfywio'r model IOM, wedi'i ariannu'n briodol, a'i gyflwyno mewn ffordd gyson fel model ar gyfer gwaith trawsasiantaethol.**

Nid yw cylch gorchwyl yr adolygiad hwn yn cynnwys dedfrydu, sydd wedi cael ei ystyried gan yr Adolygiad Annibynnol o Ddedfrydu, ac rwy'n cyfeirio uchod at rai o'i argymhellion. Roedd yr adolygiad hwnnw hefyd yn cyfeirio at effaith cynyddu dedfrydau ar faint a chyfansoddiad poblogaeth carchardai, ond nid oedd ganddo na'r amser na'r cwmpas i wneud argymhellion penodol. Mae'n nodi, er enghraifft, bod y cynnydd mewn dedfrydau sylfaenol gorfodol wedi creu 'pwysau ychwanegol ac anghynaliadwy' ar gapasiti carchardai, yn ogystal â'r cynnydd o bron i 70% yn y tariffau sylfaenol cyfartalog ar gyfer llofruddiaeth. Gan fod y ddau ffactor hyn yn cael effaith barhaus ar gapasiti carchardai, **rwy'n cefnogi cynnig yr Adolygiad Annibynnol o Ddedfrydu y dylid cael adolygiad ar wahân o effaith a chanlyniad dedfrydau sylfaenol, ac y dylai Comisiwn y Gyfraith archwilio tariffau llofruddiaeth sylfaenol fel rhan o'i adolygiad o gyfraith lladdiad a dedfrydu.**